Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Date:** | **27 Mawrth 2018** |
| **Time:** | **08:30 – 10:30** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Yr Arolygydd Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Donna Price, Swyddog Cymorth (DP)<br>Dr Paul Atwell, Chapel Associates – eitem agenda 2 yn unig<br>Y Prif Uwcharolygydd Steve Cockwell (SC) – eitem agenda 6 yn unig |
| **Ymddiheuriadau:** | Beverley Peatling (PSA) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 27/02/18** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2250** | **GB i roi'r dyddiadau ar gyfer y cyfarfod Troseddau Gwledig sirol i'r PS er mwyn rhoi gwybod i'r Panel Heddlu a Throseddu amdanynt.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2251** | **GB i roi'r amserlenni i'r PG gan Emma Northcote, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, a'r Prif Arolygwyr ar gyfer darparu Cynllun Troseddau Gwledig.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2252** | **GB i sicrhau bod amserau aros am gwnsela ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol ar agenda cyfarfod y PG ym mis Mawrth gyda Vaughan Gething AC – Ni chodwyd hwn yna ond angen ei gysylltu i PB 3046 – y CC i ddrafftio llythyr i Vaughan Gething AC ac Alun Davies AC ynghylch amserau aros dioddefwyr cam-drin rhywiol i gael mynediad at wasanaeth cwnsela.** | **Yn parhau** |
| **PB 2253** | **Bodlonrwydd Dioddefwyr i fod yn ffocws ar gyfer y Bwrdd Plismona ym mis Ebrill.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2254** | **Y CHTh i dderbyn y canllawiau a roddir i swyddogion mewn perthynas â phryd y dylid troi camerâu fideo a wisgir ar y corff ymlaen.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2255** | **MH i drefnu cyfarfod Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad rhwng y PG a'r CHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2256** | **Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer dau bolyn baner wrth y fynedfa i Bencadlys yr Heddlu, un o flaen y Ganolfan Gydlynu Strategol, ac ar gyfer adeiladu** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| | **gardd goffa wrth y fynedfa i'r Ganolfan Gydlynu Strategol.** | |
| **PB 2257** | **Nodi dau gyfarfod ystadau strategol yn y dyddiadur ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2258** | **Bwrdd Gweithredol yr Heddlu i dderbyn gwybodaeth ynghylch egwyddorion cynnig y Prif Arolygydd Dros Dro Yelland ar 1 Mai.** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 27/03/18** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 66** | **Dyfarnu contract peilot y prosiect Llwybrau Newydd i Gwalia am y cyfnod o 1af Ebrill 2018 hyd at 31ain Mawrth 2019.** | **PSA / CC** |

**2. Derbyniwyd cyflwyniad gan Paul Atwell o Chapel Associates.**

Derbyniwyd mewnbwn gan Chapel Associates mewn perthynas â modelu galluogrwydd a'r cyfleoedd y gallai hyn ei gynnig i gefnogi datblygiad sefydliadol.

**3. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 27 Chwefror a materion yn codi**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018, yn amodol ar rai newidiadau o ran geiriad y gweithredoedd ar gyfer PB T2 61 a PB T2 65.

PB 3054 - Mae cyfarfod Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad (PDR) wedi ei drefnu i'r CHTh ystyried perfformiad y PG yn erbyn yr amcanion a osodwyd adeg ei benodi, ac i drafod amcanion ar gyfer 2018/19. Siaradodd CHTh am ei uchelgais 5 mlynedd i gyflawni "rhagorol" yn archwiliadau AHEM. Eglurodd CHTh fod y 5 mlynedd yn cychwyn adeg penodi'r PG presennol.

Dilynodd trafodaeth ynghylch y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a phwysigrwydd ymgysylltu rhagweithiol gyda'r cyhoedd. Cynghorodd y PG y Bwrdd ei fod yn awyddus i gyfryngau cymdeithasol gael eu monitro ac iddynt dderbyn ymateb hyd at 10yh.

Cofnododd y PG ei ddiolch i'r Cyfarwyddwr Ystadau a'i dîm am y gwaith a gyflawnwyd i adnewyddu'r cyfleusterau llety o fewn Pencadlys yr Heddlu. Roedd adborth a dderbyniwyd gan fyfyrwyr yn gadarnhaol iawn.

## 4. Diweddariad y Prif Gwnstabl.

Diweddariad Gweithredol

Rhoddodd y PG ddiweddariad i'r Bwrdd ar amrywiaeth o faterion gweithredol gan gynnwys yr ymchwiliad sy'n parhau i'r digwyddiad trasig yn Aberteifi a chorff a ganfuwyd yn Aberaeron.

Sefydliadol

Cynghorodd y PG y Bwrdd ei fod yn cyfarfod gyda Sarah Cooper swyddog cyswllt newydd AHEM yr heddlu ar y 6ed o Ebrill.
Dilynodd trafodaeth ynghylch Seremoni Wobrwyo'r heddlu a oedd wedi ei drefnu'n dda. Diolchodd y PG i bawb a oedd wedi bod yn rhan o ddod â'r digwyddiad at ei gilydd, gan gynnwys tîm Ystadau SCHTh.

## 5. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Rhoddodd CHTh ddiweddariad i'r Bwrdd ar newidiadau mewnol o fewn SCHTh yn dilyn ailstrwythuro o fewn y swyddfa a chynghorodd fod y tîm ystadau nawr wedi ei leoli o fewn swyddfeydd SCTh.
Roedd y Cyd-bwyllgor Archwilio wedi cyfarfod ar y 19eg o Fawrth ac wedi argymell nifer o ddogfennau i'w cymeradwyo gan y CHTh. Byddai CHTh yn ystyried y rhain dros y diwrnodau canlynol.
Cytunwyd y byddai'n fuddiol cael Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd rhwng tîm Gweithredol SCHTh a Grŵp y Prif Swyddogion ym mis Mai yn dilyn y broses penodi PGC er mwyn ystyried y Cynllun Heddlu a Throseddu yn dilyn dwy flynedd o'u weithredu ac ystyried a oedd angen ei adolygu, trafod y weledigaeth plismona fwy hirdymor ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a'r cynllunio ariannol sydd ei angen er mwyn cynnal y weledigaeth hon.

**Cam Gweithredu:** Trefnu diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer Grŵp y Prif Swyddogion a Thîm Gweithredol SCHTh ar gyfer Mai 2018.

## 6. Pwnc Misol: Uniondeb Data Troseddu

Cyflwynodd y Prif Uwcharolygydd Steve Cockwell (SC) adroddiad i'r Bwrdd mewn perthynas â safle'r Heddlu o ran uniondeb data troseddu a chydymffurfedd a rheoli gwybodaeth. Codwyd pryderon ynghylch y safle presennol o ran gweithgarwch Mynegai Enwau Sylfaenol (PNI) a chydymffurfedd yr Heddlu o ran uniondeb data troseddu a chydymffurfedd trin gwybodaeth. Cynghorodd SC y Bwrdd fod yr adran yn cael ei hadolygu a'i hailstrwythuro, er nad oedd amserlen wedi ei roi ar hyn o bryd ar gyfer pryd fyddai hyn yn cael ei gwblhau. Mae staff dros dro wedi eu penodi i gynorthwyo gyda'r llwyth gwaith. Cydnabuwyd bod cynnydd wedi digwydd ers y cychwynnwyd yn 2014, a bod gweithgarwch yn cael ei gyflawni i wella cydymffurfedd e.e. darparwyd hyfforddiant i swyddogion rheng flaen ac mae hyrwyddwyr Uniondeb Data Troseddu wedi eu sefydlu. Fodd bynnag cydnabuwyd bod llawer i'w wneud.

**Cam Gweithredu:** Y PG i ystyried tynnu adnoddau ynghyd i gefnogi gweithgarwch archwilio Uniondeb Data Troseddu er mwyn gwella lefelau cydymffurfedd.

**Cam Gweithredu**: Diweddariad ar Uniondeb Data Troseddu i'w ddarparu yn y Bwrdd Atebolrwydd Plismona ym mis Mai 2018.

## 7. Cynlluniau Lles – angen cymeradwyo cynlluniau'n ffurfiol

Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd mewn perthynas â'r Cynlluniau Lles a ddatblygwyd gan y 4 Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus o fewn ardal yr Heddlu. Rhoddodd y Bwrdd eu cymeradwyaeth ffurfiol i'r 4 cynllun lles. Cytunodd y Bwrdd i barhau i ddylanwadu mewn perthynas â phwysigrwydd y newid ar y galw o ran trosglwyddo gwasanaethau drwy'r Uwchgynhadledd Galw ar y 4ydd o Fai a thrwy weithgorau/Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus lleol.

Dilynodd trafodaeth ynghylch presenoldeb ar Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a chytunwyd y byddai presenoldeb ar lefel Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael ei barhau ar lefel Prif Uwcharolygyddion Uned Rheoli Ranbarthol gyda Phrif Arolygyddion (Partneriaeth) yn dirprwyo yn ôl y galw. Cytunwyd hefyd y byddai trefniant cyfatebol yn cael ei sefydlu lle byddai SCHTh a'r Heddlu'n cynrychioli ei gilydd os nad oedd cynrychiolydd ar gael i fod yn bresennol o SCHTh neu'r Heddlu.

Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried datblygu cynnig o sefydlu canolfan rhannu a rheoli data ranbarthol a'r potensial o ddyrannu adnoddau dadansoddol yr heddlu i sbarduno hyn. Mae'r ymagwedd hon yn ymddangos yn synhwyrol yn enwedig o ystyried cyhoeddiadau diweddar a fydd yn cael effaith ar dirwedd awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gofynnodd y Bwrdd am wybodaeth bellach mewn perthynas â'r lefel o fuddsoddiad sydd ei angen gan yr Heddlu a phartneriaid eraill cyn ymrwymo.

**Cam Gweithredu**: Darparu diweddariad mewn perthynas â gofynion adnoddau canolfan rhannu a rheoli data ranbarthol ar gyfer Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn dilyn yr Uwchgynhadledd Galw ym mis Mai 2018.

## 8. Unrhyw Fusnes Arall

Cyflogaeth ôl-wasanaeth - Nododd y Bwrdd lythyr mewn perthynas â chyflogaeth ôl-wasanaeth o Gymdeithas Staff y Prif Swyddogion Heddlu a gohebiaeth berthynol eraill.

Derbyniodd y Bwrdd ddogfennaeth mewn perthynas â dyfarnu contract ar gyfer darparu a chynnal a chadw Meddalwedd Trosglwyddo CISCO a oedd wedi ei gymeradwyo gan Grŵp y Prif Swyddogion. Nodwyd hyn gan y Bwrdd.

Peilot Prosiect Llwybrau Newydd - cyflwynwyd cais i'r Bwrdd ar gyfer eithrio'r broses tendro mewn perthynas â dyfarnu tendr unigol ar gyfer y peilot hwn. Roedd y PSA wedi ceisio cyngor ynghylch caffael strategol ac yn cytuno gyda'r rhesymau a roddwyd dros ddefnyddio cyflenwyr penodol oherwydd cydymffurfedd gydag offer presennol / parhad o ran darpariaeth. Byddai hyn yn caniatáu i ganlyniadau'r peilot gael eu hasesu'n briodol er mwyn hysbysu gofynion o ran darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol. Roedd y Bwrdd yn cytuno gyda'r cyngor a roddwyd ac o ganlyniad cymeradwywyd yr argymhelliad i ddyfarnu tendr unigol.

**Penderfyniad:** Dyfarnu contract ar gyfer peilot y prosiect Llwybrau Newydd i Gwalia am y cyfnod o 1af Ebrill 2018 hyd at 31ain Mawrth 2019.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 27/02/18 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2259** | **Trefnu diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer Grŵp y Prif Swyddogion a Thîm Gweithredol SCHTh ar gyfer Mai 2018** | **GB a MH** |
| **PB 2260** | **Y PG i ystyried tynnu adnoddau ynghyd i gefnogi gweithgarwch archwilio Uniondeb Data Troseddu er mwyn gwella lefelau cydymffurfedd.** | **CC** |
| **PB 2261** | **Diweddariad ar Uniondeb Data Troseddu i'w ddarparu yn y Bwrdd Atebolrwydd Plismona ym mis Mai 2018.** | **Y Prif Uwch-arolygydd Cockwell** |
| **PB 2262** | **Darparu diweddariad mewn perthynas â gofynion adnoddau canolfan rhannu a rheoli data ranbarthol ar gyfer Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn dilyn yr Uwchgynhadledd Galw ym mis Mai 2018.** | **GB** |